# Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

# RDC(3)-16-08 (p1)

Dyddiad: 20 Hydref 2008

Amser: 16:30

Teitl: Papur tystiolaeth - Adran Materion Gwledig.  Dyraniadau Cyllidebau Drafft 2009-2010 a 2010-11

## Prif Grŵp Gwariant (MEG) Materion Gwledig

### Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn cynnig sylwadau a gwybodaeth i'r Pwyllgor am gynigion yr Adran Materion Gwledig ar gyfer ei chyllideb i ariannu rhaglenni yn y dyfodol.  Amlinellwyd y cynigion hynny yn y gyllideb ddrafft ar 7 Hydref 2008.

### Cefndir

Mae'r cynigion hyn ar gyfer y gyllideb ddrafft wedi'u gwneud o dan amodau ariannol anodd.  Yn dilyn yr Ymarfer Asesu Adnoddau a gynhaliwyd y llynedd, penderfynwyd y byddai "cyffyrddiad ysgafn" i asesiad eleni>  Dim ond ychydig bach o arian sydd wedi'i gadw yn ôl ar gyfer costau anrhagweladwy a dim ond ychydig o gyfle fydd i Adrannau ailflaenoriaethu ac ailddyrannu adnoddau o fewn y MEG.  Byddai unrhyw ailflaenoriaethu neu arian ychwanegol yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyflawni ymrwymiadau Cymru'n Un.

Yn dilyn trafodaethau rhwng swyddogion yr Adran Gyllid a'r Adran Materion Gwledig, a chyfarfod deuochrol am y gyllideb gyda'r Gweinidog Cyllid, mae £2m ychwanegol y flwyddyn dros y cyfnod o ddwy flynedd wedi'i neilltuo i gyllideb ddrafft yr Adran Materion Gwledig o'i gymharu â blwyddyn ariannol 2008-09.  Cafodd £207,000 pellach ei drosglwyddo o Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai fel cam olaf rhannu adnoddau Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad gynt.

Ychydig os o gwbl o ailflaenoriaethu sydd wedi bod yng nghynlluniau gwariant yr  Adran Materion Gwledig ond y newid mwyaf o'i gymharu â'r gyllideb ddiwethaf yw'r ad-drefnu sydd wedi'i wneud i'r MEG er mwyn dod â'r holl wariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig newydd o dan un rhaglen wario.

Mae'r tabl isod o'r crynodeb ariannol yn dangos yr effaith ar gyllideb sylfaen Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) yr adran.

£'000oedd

| | **2008-09** | **2009-10** | **2010-11** |
|---|---|---|---|
| Cyllideb sylfaen DEL | 147,361 | 150,164 | 153,783 |
| Newidiadau | | 2,207 | 2,207 |
| % y cynnydd y flwyddyn | | 3.3 | 2.4 |
| **DEL Diwygiedig** | **147,361** | **152,371** | **155,990** |

### Golwg Gyffredinol ar y Gyllideb

Blaenoriaeth yr Adran Materion Gwledig dros y tair blynedd nesaf yw gwireddu ei hymrwymiadau yn Cymru'n Un.  Rwy'n ffyddiog y bydd y cynigion yn y gyllideb ddrafft yn ein galluogi i wneud hynny.

Mae arian yn ei le i gefnogi'r ymrwymiad i gynnal rhaglen i ddileu TB, ac i gefnogi'r Cynllun Datblygu Gwledig i wireddu'r ymrwymiadau amrywiol yn y Cynllun, gan gynnwys creu cynllun ar gyfer newydd-ddyfodiaid i ffermio.

Er hynny, mae'r pwysau ar gyllideb yr Adran yn parhau, gyda mwy o iawndal i'w dalu oherwydd y cynnydd yn yr achosion o TB yng ngwartheg Cymru.  Mae hon yn broblem fawr.  Bydd yn rhaid gwneud penderfyniadau anodd o'r herwydd rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.  Mae'n bwysig iawn felly ein bod yn dal i gadw golwg ar ein cyllideb, chwilio am gyfleoedd i arbed arian trwy fod yn fwy effeithlon a gwneud y gorau o'n rhaglenni.

Ar gyfer 2008-09 a'r blynyddoedd wedi hynny, rwy wedi penderfynu ad-drefnu'r Gyllideb Materion Gwledig.  Fy mhrif amcan wrth

wneud hynny yw symleiddio'r nifer fawr o feysydd rhaglenni a llinellau cyllid o fewn y MEG a chreu fframwaith sy'n adlewyrchu prif feysydd gwaith yr Adran, sef Iechyd Anifeiliaid, y Cynllun Datblygu Gwledig, y Cynlluniau Taliad Sengl, y Comisiwn Coedwigaeth a'r BELau sy'n weddill i gyd gyda'i gilydd o dan y pennawd Bwyd, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd.

Bydd dal angen inni dynhau'r berthynas waith rhwng yr Is-adrannau o fewn y portffolio hwn er lles prosiectau trawsbynciol. Bydd hyn yn neilltuol o berthnasol i'r rhaglenni niferus sy'n rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig ac sy'n rhychwantu 5 is-adran a 2 adran ynghyd â'r Comisiwn Coedwigaeth, gan ddefnyddio nawdd o Ewrop ac adnoddau sydd wedi'u clustnodi fel Arian Cyfatebol.

Mae arian ar gyfer y gwaith y mae'r Labordy Wyddonol Ganolog yn ei wneud ar ran yr adran hon, a nawdd i Ganolfan Organig Cymru, wedi'u trosglwyddo i'r gyllideb Materion Gwledig o MEG Adran yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (AACTh). Yr un pryd, mae arian ar gyfer yr ymchwil amgylcheddol sy'n cael ei gwneud ar gyfer AACTh wedi'i symud o MEG Materion Gwledig i AACTh. Y newid hwn yw cam olaf ad-drefnu cyllidebau rhaglenni yn sgil diwygio portffolios ar ôl yr etholiad diwethaf.

I gloi, mae'r Comisiwn Coedwigaeth yn adran ar wahân i'r Llywodraeth ac yn derbyn arian net oddi wrth y Cynulliad. Mae hwnnw'n cynnwys cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer cost diogelu cyfalaf a chostau dibrisiant (dim arian parod). Amod o ran cadw cyfrifon yw hwn.

Meysydd Rhaglenni Gwario (SPA)

Rheoli Clefydau a Lles Anifeiliaid

Mae'r SPA hwn yn ymdrin â gwariant Llywodraeth y Cynulliad ar iechyd a lles anifeiliaid ac atal clefydau anifeiliaid.

Mae hyn yn darparu arian ar gyfer TB gwartheg, sy'n cynnwys taliadau iawndal, ymrwymiad Cymru'n Un i gynnal rhaglen i ddileu TB gwartheg ac ymrwymiad Cymru'n Un i ofyn am randdirymiad i'r Rheoliadau Ewropeaidd er mwyn cael claddu stoc trig ar dir fferm.

Er mai talu iawndal TB yw'r elfen wario fwyaf ar hyn o bryd, o'r gyllideb hon y daw'r arian ar gyfer goruchwylio a rheoli a pharatoi cynlluniau wrth gefn ar gyfer clefydau egsotig fel Ffliw Adar.

Cynlluniau Taliad Sengl

Aiff y rhan fwyaf o'r arian o'r SPA hwn i dalu am daliadau sengl i ffermwyr. Daw'r holl arian ar ei gyfer o'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r SPA'n cynnwys y llinellau gwariant a derbyniadau ar gyfer y taliadau i ffermwyr o dan y Cynllun Taliad Sengl. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn ad-dalu'r cyfan. Mae'r SPA yn cynnwys gwariant ar gynnal a chadw a datblygu'r system gyfrifiadurol sy'n prosesu ceisiadau'r cynllun a hefyd gwariant ar gynhyrchu llawlyfrau a ffurflenni'r Cynllun Taliad Sengl.

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Yr SPA hwn sy'n ariannu gwaith Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Mae hwnnw'n cynnwys:

Gwaith Coedwigaeth gan gynnwys Diogelu a Chynnal Seilwaith gan gynnwys ffyrdd, ynghyd â datblygu Ystad y Cynulliad.

Cadw achrediad Safon Sicr Coetiroedd y Deyrnas Unedig.

Rhoi Strategaeth Goetiroedd y Cynulliad ar waith, a'i mesur trwy broses yr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghynllun Corfforaethol y Comisiwn a'u cloriannu yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol;

Gwariant ar Fflyd a Phrosiectau Cyfalaf (fel gwella'r Ganolfan Ymwelwyr) y Comisiwn;

Incwm o Bren / Rheoli a Datblygu Ystad y Cynulliad a Gweithgareddau Hamdden;

Incwm o werthu Asedau dros ben

Gwariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig - yr UE a'r DU

Mae'r SPA hwn yn dod â'r holl wariant ar y Cynllun Datblygu Gwledig o dan yr un maes yn y MEG. Mae'n cyllido'r gwaith o roi Cynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 ar waith (hynny'n cynnwys Bwyd-Amaeth a Cyswllt Ffermio; Amaeth-amgylchedd a Rheoli Tir, ac Adfywio Cymunedau Gwledig).

Bwyd, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd

Amcan yr SPA hwn - sy'n cynnwys elfennau o'r hen SPA Economi a Chymunedau Gwledig Cynaliadwy - yw hyrwyddo ac ehangu'r diwydiant bwyd amaeth yng Nghymru. Mae'n cynnwys hefyd nawdd i'r diwydiant pysgodfeydd, arian ar gyfer y Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes ac ymchwil a datblygu ar gyfer cynlluniau hen a newydd o fewn yr Adran Materion Gwledig.

Linell Wariant (BEL) Hyrwyddo Bwyd Cymru

Mae'r BEL hwn yn cynnwys nawdd i'r gronfa datblygu Bwyd-Amaeth, cynllun Datblygu Marchnata, y Grŵp Cynghori ar y Strategaeth Bwyd a Diod, gweithgareddau hyrwyddo rhanbarthol a gweithgareddau'r uned datblygu marchnadoedd.

BEL Cynlluniau Pysgodfeydd

Mae'r BEL hwn yn cefnogi gwaith yr Uned Bysgodfeydd i reoli holl bysgodfeydd Cymru ac mae'n cynnwys arian cyfatebol ar gyfer Grantiau Pysgodfeydd Ewrop (yr hyn sy'n weddill o'r hen Offeryn Ariannol ar gyfer Cyfarwyddo Pysgodfeydd (FIFG) a Chronfa Pysgodfeydd newydd Ewrop (EFF).

Nod yr EFF yw hyrwyddo sector pysgodfeydd sy'n gynaliadwy a phroffidiol, ac sy'n cynnal cymunedau lleol cryf. Mae pum maes blaenoriaeth (echel) yn darged ganddo:

1. Addasu fflyd bysgota'r Gymuned;
2. Dyframaethu, pysgota mewndirol, prosesu a marchnata cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaethu;
3. Mesurau sy'n dod â budd i bawb;
4. Datblygu ardaloedd pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy; a
5. Cymorth technegol i hwyluso cyflwyno cymorth.

Mae BEL Cynlluniau Pysgodfeydd yn cynnwys arian i gyllido gweithgareddau rheoli a gorfodi, fel cyfrannu at oruchwylio'r fflyd bysgota o'r awyr ar lefel Brydeinig, asesiad priodol o bysgodfeydd a rheoli cronfa ddata symudiadau pysgod byw ar gyfer monitro clefydau hysbysadwy.

BEL Ymchwil a Gwerthuso

Trwy barhau i ddatblygu'r sylfaen o dystiolaeth, sicrheir bod yr Adran Materion Gwledig yn datblygu polisïau a rhaglenni sy'n bodloni'r amcanion trawsbynciol ynghylch cynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Mae Cynllun Tystiolaeth yr Adran yn esbonio'r dystiolaeth sydd ei hangen ar yr Adran iddi seilio'i blaenoriaethau arni a pha waith ymchwil a gwerthuso ddylai gael ei gynnal neu ei gomisiynu yn y 12 mis nesaf i wireddu'r blaenoriaethau hynny.

Mae'r Gronfa Tystiolaeth a Gwerthuso'n gronfa ar gyfer cyllido'r prosiectau ymchwil hyn. Rhaid cael cytundeb gan Bennaeth yr Adran bod pob cais am arian yn flaenoriaeth, nad oes arian arall ar gael ar ei gyfer ac y bydd y canlyniad yn bodloni thema drawsbynciol. Yr Adran Gwasanaethau Technegol ar ran yr Adran Materion Gwledig sy'n trefnu ac yn rheoli'r gronfa a gweinyddir pob prosiect gan dîm fydd yn cynnwys swyddogion polisi a thechnegol.

BEL Lles Anifeiliaid Anwes

Mae'r Ddeddf Lles Anifeiliaid a ddaeth i rym ym mis Mawrth 2007 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol am y tro cyntaf i ddelio â phroblemau lles anifeiliaid yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Gwella Lles Anifeiliaid Anwes (CAWES) yn gyfle go iawn i godi safonau lles anifeiliaid ledled Cymru trwy gael awdurdodau lleol i gydweithio â mudiadau lles anifeiliaid (fel rhan o'r Bartneriaeth â'r Sector Gwirfoddol), yr Heddlu a Llywodraeth y Cynulliad.

Performiad

Lles Anifeiliaid a Rheoli Clefydau Anifeiliaid

BEL Lles Anifeiliaid a Rheoli Clefydau Anifeiliaid

Mae BEL Lles a Rheoli Clefydau Anifeiliaid yn noddi amrywiaeth o gynlluniau. Mae perfformiad y cynlluniau hyn yn cael ei fonitro trwy adroddiadau misol, ymchwil a byrddau prosiect. Er enghraifft, mae'r Ymgyrch i Ddileu Clefyd Hydatid yn cael ei monitro trwy adroddiadau misol am nifer y cŵn sydd wedi cael moddion lladd llyngyr sy'n cael eu harchwilio a'r samplau o faw cŵn sy'n cael eu dadansoddi. Mae gwaith ymchwil yn cael ei gynnal i weld faint o'r clefyd sydd yng Nghymru ac i fonitro hynny. Bydd Bwrdd Prosiect yr Ymgyrch yn gwneud yn siwr fod cynlluniau'r Ymgyrch ar gyfer y dyfodol yn defnyddio canlyniadau'r ymchwil.

BELs TB

Bydd y ddau BEL TB yn cael eu mesur yn ôl nifer yr achosion o TB. O ran y BEL taliadau Lladd TB, rhaid cymryd gwerth yr anifeiliaid sy'n cael eu difa i reoli TB i ystyriaeth wrth bennu lefelau iawndal. Mae cyllideb y Rhaglen Dileu TB hefyd yn cael ei mesur trwy brosiectau unigol y Rhaglen gan Reolwyr Prosiectau sy'n atebol i Fwrdd y Rhaglen Dileu TB.

Cynlluniau Taliad Sengl

Darparu:

Mae'r cynllun yn talu rhyw £250 miliwn i ryw 17,000 o ffermwyr sy'n gorfod dangos eu bod yn cadw eu tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da ac yn cadw at nifer o ofynion statudol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, iechyd y cyhoedd, planhigion ac anifeiliaid a lles anifeiliaid.

Manteision:

Cymorth uniongyrchol i'r economi wledig a'r amgylchedd, yn annog arferion amgylcheddol ac amaethyddol da a chynaliadwy.

Mesur Perfformiad:

Taliadau llawn a chywir i 90% o'r ymgeiswyr cymwys ym mis cyntaf y cyfnod talu (Rhagfyr); a'r holl ymgeiswyr cymwys cyn diwedd y cyfnod talu (30 Mehefin).

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Mae Strategaeth Goetiroedd y Cynulliad yn cael ei mesur trwy broseswyr Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, sy'n cynnwys Dangosyddion Perfformiad (DP) sy'n cael eu cyhoeddi yng Nghynllun Corfforaethol y Comisiwn a'u cloriannu yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol.

Mae'r DPion yn delio â'r Meysydd Strategol canlynol:

Rheoli Coetiroedd Gynaliadwy;

Coetiroedd yn Cynnal Cymunedau Effeithiol a Chryf;

Coetiroedd yn gwneud Cyfraniad Adeiladol at Economi Cymru.

Cynllun Datblygu Gwledig Cymru

Bydd datblygiad, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y Cynllun Datblygu Gwledig o ran cyflawni ei amcanion yn cael eu mesur trwy Fframwaith Monitro a Gwerthuso Cyffredin y mae'r Rheoliadau Ewropeaidd yn gofyn amdano.  Caiff pob cynllun yn y Cynllun Datblygu ei fonitro'n drylwyr.  Bydd cynllun monitro a gwerthuso'n cael ei baratoi ar gyfer pob cynllun.  Bydd rheolwyr y cynlluniau'n eu monitro ac yn paratoi adroddiad ar y mewnbynnau ariannol, y canlyniadau a dangosyddion canlyniadau.  Bydd effaith y cynlluniau unigol a'r Cynllun Datblygu Gwledig ei hun hefyd yn cael ei hasesu.

Bwyd, Pysgodfeydd a'r Amgylchedd

BEL Cynlluniau Pysgodfeydd

Mesurir perfformiad y BEL hwn mewn sawl ffordd:

Sut mae amcanion Strategaeth Pysgodfeydd Cymru yn cael eu cyflawni i greu pysgodfeydd iach a chynaliadwy.

Ymrwymiad yr EEF i brosiectau addas i roi amcanion SPC 2007-2013 ar waith.

Marchnata cynnyrch pysgodfeydd yn effeithiol mewn marchnadoedd cartref a thramor.

Creu fframwaith cytûn ar gyfer gwaith rheoli a gorfodi - i'w ddarparu (tra bo Mesur y Môr yn caniatau) 2010-2012.

BEL Cynllun Lles Anifeiliaid Anwes

Mesurir llwyddiant y cynllun mewn sawl ffordd:

Lles anifeiliaid yn gwella;

Cymryd camau gorfodi'n llai aml;

Mwy o gydweithio;

Cynllun addysg ar y cyd, gyda mwy o bobl yn dod i ddeall beth yw gofal "da";

Awdurdodau lleol a chymdeithasau lles yn rhannu arferion gorau; a

Penderfyniadau gwell ar bolisi'n cael eu gwneud gan awdurdodau lleol ar sail tystiolaeth ymarferol (h.y. polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth).

BEL Refeniw Rheoli'r Amgylchedd

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi cyfraniad blynyddol tuag at gost yr Uned Wenyn Genedlaethol. Mesurir ei pherfformiad o ran rheoli clefydau gwenyn yng Nghymru, gwella'r addysg am wenyna a gwella arferion gwenyna.